Llyr Huws Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost yn unig: SeneddClimate@senedd.wales

3ydd Gorffennaf 2025

Annwyl Llyr,

Ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), hoffem ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad craffu blynyddol ac am ei argymhellion adeiladol. Rydym yn gwerthfawrogi rôl y pwyllgor yn fawr wrth ddwyn CNC i gyfrif a'n cynorthwyo i gyflawni'n effeithiol dros bobl Cymru.

Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth lafar fel rhan o'r broses graffu yn fawr iawn. Bu ymgysylltiad yr aelodau'n gymorth i sicrhau deialog gynhyrchiol a thryloyw, ac rydym yn croesawu diddordeb parhaus y pwyllgor yn ein gwaith.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn gyfraniad pwysig at ein gwaith parhaus o gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ein cynllun corfforaethol – i gefnogi adferiad natur, mynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau llygredd. Rydym eisoes yn cymryd camau i fynd i'r afael â nifer o'r pwyntiau a godwyd a byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn wrth i ni wella effeithiolrwydd, effaith a thryloywder ein gwaith.

Gweler ymateb llawn CNC i'r argymhellion wedi'i amgáu. Os bydd angen unrhyw wybodaeth neu eglurhad pellach arnoch, byddem yn falch o'i ddarparu.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| Ceri Davies | Syr David Henshaw |
| **Prif Weithredwr Dros Dro**<br>**Interim Chief Executive Officer** | **Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>**Chair, Natural Resources Wales** |

# Ymateb i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC): Gwaith Craffu Blynyddol 2024/25

## Argymhelliad 1

### Rhaid i CNC symud yn gyflym i recriwtio Prif Swyddog Gweithredol parhaol o fewn y chwe mis nesaf a sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer olyniaeth drefnus i gadeirydd newydd ym mis Hydref 2025.

Mae CNC yn aros am gadarnhad gan y Dirprwy Brif Weinidog ynghylch penodiad cadeirydd newydd CNC. Rydym wrthi'n paratoi rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer y cadeirydd newydd. Bydd hyn yn seiliedig ar y broses sefydlu a ddatblygwyd gennym yn ddiweddar ac a ddefnyddiwyd i sefydlu'r tri aelod newydd a ymunodd â Bwrdd CNC ym mis Mai eleni.

Bydd y rhaglen sefydlu newydd yn cynnwys cyfarfod ag aelodau'r bwrdd, y Prif Weithredwr ac aelodau o'i Thîm Gweithredol, ac amrywiaeth o staff ar draws ehangder swyddogaethau'r sefydliad a'i weithrediadau sy'n canolbwyntio ar leoedd.

Yn ogystal, bydd yn cynnwys cyfleoedd i gyfarfod â rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru ac ar draws amrediad o weithgareddau CNC. Byddwn hefyd yn sicrhau ei bod yn rhoi cyflwyniad i weithio yng Nghymru, ac i'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Bydd yr adborth a geir o'r cyfleoedd hyn yn helpu i lywio barn y cadeirydd newydd ar y rhinweddau hanfodol y mae eu hangen ar y Prif Swyddog Gweithredol newydd.

Yn y cyfamser, mae'r cadeirydd presennol a'r Prif Swyddog Gweithredol dros dro eisoes wedi dechrau rhoi trefniadau ar waith ar gyfer y broses benodi, gan gynnwys penodi arbenigwyr ar recriwtio uwch-arweinwyr a chreu pecyn recriwtio drafft fel y gall y cadeirydd newydd a'i fwrdd drafod a chytuno ar y disgrifiad o'r rôl ar gyfer y penodiad hanfodol hwn.

## Argymhelliad 2

### Rhaid i CNC ddarparu cynllun credadwy ar fyrder ar gyfer ailagor y tair canolfan ymwelwyr. Rhaid i hyn gynnwys eglurder ynghylch ei weledigaeth ar gyfer dyfodol y canolfannau ymwelwyr, y lefelau gwasanaeth y mae'n dymuno eu gweld, a strategaeth ariannol hyfyw ac amserlen ar gyfer cyflawni hyn. Dylid darparu'r cynllun hwn i'r pwyllgor o fewn tri mis.

Rydym yn symud ymlaen yn gyflym â'r amserlen a'r cynlluniau ar gyfer defnyddio safleoedd ein Canolfannau Ymwelwyr.

Yn Ynys-las, mae cytundeb rheoli cymunedol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd rhwng CNC a Hyb Cymunedol y Borth i ddefnyddio'r gofod sydd ar gael i barhau â'u rhaglenni allgymorth

cymunedol trawiadol. Rydym yn disgwyl i hyn fod yn gwbl weithredol erbyn canol mis Gorffennaf. Mae'r cytundeb hwn yn ganlyniad ymarfer datganiad o ddiddordeb a gynhaliwyd i ddod o hyd i bartneriaid addas i ddefnyddio'r adeilad.

Yn achos Bwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin, bydd cyfleoedd yn cael eu rhoi ar y farchnad i weithredwyr posibl drwy GwerthwchiGymru ddechrau mis Tachwedd 2025. O ystyried faint o ddiddordeb a grëwyd gan y datganiad anffurfiol o ddiddordeb ar ddechrau 2025 ac amrywiaeth y cynigwyr posibl a'r posibiliadau ar gyfer gwella a'r cyfleoedd a gyflwynwyd, byddwn ni'n defnyddio dull deialog gystadleuol o weithredu ar gyfer y safleoedd hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cyflawni'r gwerth mwyaf posibl a hyfywedd hirdymor ac y bydd manteision i'r economi leol ynghyd â gostyngiad mewn rhwymedigaethau. Bydd yr ymarfer marchnad yn ffafrio'n gryf fentrau lleol a chymunedol a all ddarparu achos busnes dichonadwy ar gyfer y naill safle neu'r llall. Y cynllun yw cael cynigydd a ffefrir ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27. Bydd amseriad yr ailagor yn dibynnu'n rhannol ar y cynigydd buddugol ac unrhyw fuddsoddiad ychwanegol y gallai fod eisiau ei wneud ar y safle, ond rydym yn disgwyl iddynt fod yn weithredol i ryw raddau erbyn haf 2026.

## Argymhelliad 3

O ran Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, rhaid i CNC nodi sut y mae'n bwriadu rheoli'r warchodfa natur er mwyn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor, ac i'r cyhoedd yn ehangach, y bydd hyn yn ddigonol, o leiaf, i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Mae gan Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi gynllun rheoli hirhoedlog a chymeradwy sy'n nodi amrediad o feysydd gwaith ar draws ardal y twyni tywod a Chors Fochno. O hwn, rydym ni'n creu rhaglen o waith cadwraeth, sydd â chefnogaeth adnoddau pwrpasol a chyllid blynyddol.

Yn ogystal, mae arian ar gael ar gyfer rhwymedigaethau neu waith seilwaith handfodol. Fel ymhob blwyddyn, mae arian ar gael a rhaglen ar y gweill ar gyfer amrediad o waith yn y meysydd hyn ar gyfer y flwyddyn bresennol. Bydd gwaith sy'n cynnwys rheoli pori, rheoli prysgwydd ac arolygu a chynnal a chadw seilwaith yn parhau er gwaethaf y newidiadau diweddar yn ein canolfan ymwelwyr yn Ynys-las.

Mae staff a chontractwyr CNC yno'n barod i gyflawni ystod o ddyletswyddau gan gynnwys archwiliadau atebolrwydd, goruchwylio'r traethau, casglu sbwriel, a gwneud tasgau cadwraeth ehangach. Lle bo angen, byddwn yn addasu ein rhaglen flynyddol ar gyfer hyn a safleoedd eraill i ymateb i broblemau sy'n dod i'r amlwg a phwysau gwaith adweithiol.

## Argymhelliad 4

Dylai CNC sicrhau ei fod yn monitro ac yn gwerthuso digonolrwydd y cyllid ar gyfer rheoli llifogydd a'r defnydd ohono. Dylai adrodd yn ôl i'r pwyllgor o fewn chwe mis er mwyn sicrhau bod hyn yn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb y flwyddyn nesaf.

Nodwn ddiddordeb y pwyllgor ynghylch goruchwylio ariannu rheoli'r perygl o lifogydd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos iawn gyda changen llifogydd Llywodraeth Cymru i roi sicrwydd ynghylch defnyddio arian llifogydd, gan ddefnyddio'r berthynas waith agos sydd eisoes ar waith rhwng ein timau a thrwy ein rôl ar y bwrdd rheoli perygl llifogydd a risgiau arfordirol. Rydym yn cyfarfod yn fisol â'r swyddogion o fewn y gangen llifogydd, gan ddarparu diweddariadau ysgrifenedig ar ein rhaglen buddsoddi cyfalaf, ac yn mynychu cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Rhaglenni, lle rydym yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf.

Fel y gwnaethom yr hydref diwethaf, byddwn yn cyflwyno ein cynlluniau buddsoddi bob blwyddyn i'w craffu a'u sicrhau, drwy achos busnes amlinellol ar gyfer y rhaglen. Mae'r broses hon yn caniatáu inni nodi gofynion, dewisiadau a risgiau, wrth hefyd gyfiawnhau'r buddsoddiad yn ein rhaglen drwy ddull model busnes "pum achos" sefydledig. Gobeithiwn y bydd hyn hefyd yn cynorthwyo'r broses o ddyrannu cyllidebau ac yn dylanwadu arni.

Yn ogystal â'r adrodd arferol drwy gydol y flwyddyn ariannol, rydym hefyd yn darparu Adroddiad Blynyddol Rheoli Perygl Llifogydd ar ddiwedd y flwyddyn i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhoi sylw da i astudiaethau achos a gweithgareddau sydd wedi'u cyflwyno gan ddefnyddio ein buddsoddiad mewn rheoli'r perygl o lifogydd, ond mae hefyd yn rhoi dadansoddiad manwl o ba weithgareddau penodol y gwariwyd yr arian arnynt. Mae adroddiad 2024/25 yn cael ei gwblhau ond mae adroddiadau blynyddoedd blaenorol ar gael ar wefan CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad blynyddol rheoli perygl llifogydd 2023 i 2024.

O ran digonolrwydd y cyllid sydd ar gael i gyflawni gweithgareddau rheoli perygl llifogydd, fel y mae'r adroddiad craffu wedi'i nodi, mae amrediad o bwysau ariannol cyffredinol sy'n cyfyngu ar ein gallu i gyflawni'r gwaith. Rydym yn cyflawni'r gweithgareddau hyn, fel y'u llywir gan strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, trwy ddull sy'n seiliedig ar risg, gan flaenoriaethu ein hymdrechion tuag at y rhai sydd mewn mwyaf o berygl o lifogydd. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu cyflawni cymaint ag yr hoffem ar draws pob ardal o Gymru ac mae'n golygu bod rhai gweithgareddau'n cael blaenoriaeth dros eraill. Fel y cydnabuwyd gan yr adroddiad, rydym wedi tynnu sylw at y materion hyn yn flaenorol drwy bethau fel adolygiad llifogydd Chwefror 2020 a'r adroddiad gofynion buddsoddi hirdymor mwy diweddar.

Dim ond cynyddu'r adnoddau y mae eu hangen i reoli perygl llifogydd yn effeithiol yng Nghymru y bydd effeithiau'r argyfwng hinsawdd, ond mae'n hanfodol ein bod hefyd yn ystyried yr adnoddau a'r sgiliau y mae eu hangen i gyflawni'r camau addasu a chydnerthedd hanfodol angenrheidiol i gefnogi Cymru i symud ymlaen.

Mae CNC eisiau gweithio mewn ysbryd partneriaeth go iawn â chymunedau lleol a sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, y cwmnïau dŵr, ac adrannau Llywodraeth Cymru, i ddarparu atebion cynaliadwy i reoli'r perygl o lifogydd. Mae'n hanfodol ein bod yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth o ddulliau a thechnegau, ac yn buddsoddi ynddynt, wrth i ni a chymdeithas ymateb i hinsawdd sy'n newid yn gyflym a'r effeithiau a ddaw yn ei sgil.

Mae angen ystyried hyn yn ogystal â gallu darparu ein gwasanaethau craidd, megis cyngor ar ddatblygu, rhybuddion llifogydd, a chynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd. Felly,

byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu tystiolaeth ynghylch ein hanghenion buddsoddi presennol a hirdymor a byddwn yn trafod y rhain gyda Llywodraeth Cymru yn barhaus.

## Argymhelliad 5

### Dylai CNC barhau i fonitro'n ofalus ei berfformiad o ran atal digwyddiadau llygredd amgylcheddol ac ymateb iddynt, er mwyn sicrhau nad yw ei newid o ran pwyslais yn arwain at fwy o ddigwyddiadau llygredd neu fethiant i ymateb.

Mae tystiolaeth yn dangos bod tua 95% o'r digwyddiadau yr ydym yn ymateb iddynt yn arwain at ychydig iawn o effaith, neu ddim effaith o gwbl ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, maent yn dal i ddefnyddio cyfran sylweddol o'n hamser a'n hadnoddau. Mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith cydymffurfio ataliol a allai atal llygredd cyn iddo ddigwydd.

Felly bydd CNC yn parhau i flaenoriaethu digwyddiadau sy'n effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, rydym bellach yn gofyn i swyddogion fabwysiadu dull mwy cymesur, sy'n seiliedig ar risg, gan ganolbwyntio ein hymdrech lle bydd ein cyfranogiad yn darparu'r budd mwyaf. Ar gyfer rhai digwyddiadau lefel isel, effaith isel, gall hyn olygu nad ydynt yn cael ymateb ar unwaith nac ymyrraeth uniongyrchol. Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn yn dewis mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol drwy weithgarwch rheoleiddiol arferol, gorfodi, neu waith atal llygredd drwy geisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol llygredd yn hytrach na symptomau.

Byddwn yn dechrau defnyddio'r dull newydd hwn o ymateb i ddigwyddiadau llygredd ym mis Gorffennaf 2025. O'r pwynt hwnnw ymlaen, byddwn yn casglu data i asesu sut mae'r model newydd yn gweithio ac a oes angen i ni wneud unrhyw newidiadau pellach i sicrhau ein bod yn lleihau'r amser a dreuliwn ar waith effaith isel. Byddwn hefyd yn dechrau cofnodi enghreifftiau o ble rydym yn symud adnoddau i waith a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth leihau llygredd.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad i helpu i gryfhau ein dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn ymateb i wahanol fathau o ddigwyddiadau, ac rydym yn llunio canllawiau i gynorthwyo ein swyddogion i wneud penderfyniadau ar sut i ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol ac mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg.

## Argymhelliad 6

### Dylai CNC ddweud wrth y pwyllgor ble y mae o'r farn bod lefel y sancsiynau a'r dirwyon yn rhy isel iddo allu cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio amgylcheddol yn effeithiol.

Mae dirwyon llys am droseddau amgylcheddol yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol. Ers 2021, mae'r llysoedd wedi dyfarnu dirwyon gwerth mwy na £1.8 miliwn yn sgil achosion gan CNC. O'r rhain, y ddirwy gyfartalog a roddwyd am droseddau diannod yn unig, ac eithrio achosion gwialen a llinyn, oedd £1,139. Mae hyn yn 22% o'r uchafswm o £5,000 y gellid ei ddyfarnu mewn achosion o'r fath.

Mae mwy o ganllawiau ynghylch lefel y ddirwy mewn achosion nad ydynt yn ddiannod ac mae'n debyg eu bod yn llai problemus. Mae gwahanol uchafsymiau ar gael ar gyfer dirwyon, yn dibynnu ar y ffordd y cafodd y troseddwr ei gyhuddo. Llys y Goron neu lys yr ynadon sy'n penderfynu ar y lefel briodol o ddirwy ac mae'n rhaid iddi, yn ôl y canllawiau dedfrydu, adlewyrchu difrifoldeb y drosedd ac ystyried amgylchiadau ariannol y troseddwr.

Byddai CNC yn croesawu dirwyon mwy cyson a llym i adlewyrchu difrifoldeb y troseddau yn well o fewn yr amrediadau dirwyon sydd eisoes ar gael o fewn deddfwriaeth, i fedru atal troseddau amgylcheddol yn effeithiol. Dylid nodi hefyd nad yw'r cosbau gwirioneddol a osodir weithiau'n adlewyrchu cost adfer difrod amgylcheddol na'r manteision ariannol a geir o weithgareddau anghyfreithlon. Mae'n bwysig nodi bod dirwyon llys yn cael eu talu i Drysorlys Ei Fawrhydi ac, felly, nid yw CNC yn gallu defnyddio'r arian hwn i gefnogi gweithgareddau gorfodi yn y dyfodol nac ariannu gwaith adferol sy'n amddiffyn yr amgylchedd yng Nghymru.

Mae ein defnydd o hysbysiadau cosb penodedig wedi bod yn gyfyngedig iawn – dim ond 10 hysbysiad rydym wedi'u cyhoeddi ers 2016. Mae ein timau gweithredol yn adrodd bod eu defnydd yn isel oherwydd gwerth isel y ddirwy (fel arfer £300) a'r costau gweinyddol uchel am eu defnydd. Mae gwerth isel y ddirwy yn golygu mai dim ond ar gyfer y mân droseddau y maent yn briodol. Gydag adnoddau cyfyngedig, mae dadansoddiad cost a budd o blaid defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i orfodi yn erbyn troseddau mwy difrifol. Byddai cynyddu uchafswm yr hysbysiadau cosb penodedig yn gwella'r cydbwysedd cost a budd a dylai gynyddu eu defnydd.

I gydnabod hyn, mae CNC yn cefnogi cyflwyno pwerau cosbau sifil cynyddol fel dewis amgen i erlyniad troseddol, lle bo'n briodol. Byddai dull gwell o weithredu cosbau sifil, gyda baich profi cymesur, yn cynnig mwy o hyblygrwydd gyda lle i gosbau uwch sy'n adlewyrchu'n well y difrod amgylcheddol a achosir gan drosedd. Byddai hyn yn cynorthwyo gorfodi clir, amserol a chymesur, a fydd yn helpu i daro gwell cydbwysedd rhwng ataliaeth ac iawndal.

Rydym wedi codi dro ar ôl tro na ellir gorfodi rhai o'r rheoliadau allweddol a ddefnyddiwn yn ein dull gorfodi (e.e. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021) ar hyn o bryd drwy gosbau sifil – mae hyn yn groes i'r rheoliadau cyfatebol yn Lloegr.

Rydym hefyd yn cefnogi gweithredu'r Ddeddf (Mesurau Arbennig) Dŵr yng Nghymru. O dan y Ddeddf hon, bydd cosbau sifil ar gyfer rhai troseddau (sy'n ymwneud â'r diwydiant dŵr yn unig) yn cael eu hailddiffinio gan ddefnyddio dull sifil (yn ôl yr hyn sy'n debygol) o ran baich profi.

## Argymhelliad 7

### Dylai CNC barhau i bwyso am gyfundrefn ariannu amlflwyddyn i'w helpu i reoli ei gyllidebau ar gyfer y tymor hir.

Mae CNC wedi datblygu cynllun corfforaethol sy'n ymestyn o 2023 i 2030, ac mae ein llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer tymor cyfan y llywodraeth bresennol. Mae mwyafrif helaeth ein gwaith yn amlflwyddyn ei natur. Mae cydbwyso ein hamrediad eang o

ddyletswyddau a chyfrifoldebau o fewn cyfyngiadau cyllid y sector cyhoeddus yn aml yn heriol.

Mae Bwrdd CNC wedi ymrwymo'n gadarn i ail-ddychmygu sut rydym yn cyflawni ein cylch gwaith. Ein ffocws yw sicrhau ein bod yn cymryd y camau mwyaf effeithiol i gyflawni canlyniadau ystyrlon yn ddi-oed. Yn y cyd-destun hwn, credwn y byddai cael eglurder a sicrwydd cyllid ar sail amlflwyddyn yn galluogi CNC i gynllunio ymlaen llaw a chyflawni ein cynllun corfforaethol yn well.

## Argymhelliad 8

### Wedi i'r trafodaethau â CThEF ddod i ben, dylai CNC roi diweddariad llawn ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, ynghyd ag esboniad llawn o sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ad-dalu drwy arbedion effeithlonrwydd a heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen.

Rhoir yr wybodaeth ddiweddaraf ar gasgliad ymchwiliad CThEF. Bydd hyn yn cynnwys manylion y cytundeb a wnaed gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer dychwelyd y blaendal o £19 miliwn. Gan fod y cyfanswm terfynol yn debygol o fod yn llai na'r swm a dalwyd ar gyfrif, bydd CThEF yn ad-dalu'r gwahaniaeth i CNC a byddwn yn dychwelyd y swm hwnnw i Lywodraeth Cymru ar unwaith. Mae addasiadau cychwynnol i'n cyllidebau ar gyfer 2024/25 a 2025/26 eisoes wedi'u gwneud i gasglu'r ddau randaliad cyntaf. Gwneir addasiadau cyllidebol pellach dros y blynyddoedd i ddod i adennill y gweddill gan CNC.

Ar hyn o bryd, mae CNC yn ymgymryd ag amryw o adolygiadau i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran cost yn ein gweithrediadau heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen. Mae'r rhain yn cynnwys Adolygiad o Wasanaethau Galluogi, CNC2030 (sy'n edrych ar ein strategaeth adeiladau, TG a gwasanaethau digidol), ac archwiliad o amrediad o ffyrdd o ddarparu adnoddau i CNC gyflawni ei ymrwymiadau (y cyfeirir ato fel model yr economi gymysg). Rhagwelir y bydd y rhain yn nodi arbedion effeithlonrwydd (gan gynnwys cost) a fydd yn helpu CNC i gyflawni cyllidebau cytbwys yr ydym wedi ystyried yr ad-daliad ynddynt. Mae'r ad-daliad yn cyfateb i ychydig llai na 0.5% o'n cyllideb gyffredinol. Yn bwysicach fyth, mae lefel y cyllid cymorth grant ac CNC yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd o fuddsoddiad mewn technoleg yn hanfodol i ddiogelu ein gwasanaethau rheng flaen.

## Argymhelliad 9

### Yn ogystal â'r trefniadau monitro mwy manwl y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u rhoi ar waith, mae'n hollbwysig bod gwersi'n cael eu dysgu o'r profiad gyda CThEF drwy adolygiad cynhwysfawr. Dylai CNC adrodd yn ôl i'r pwyllgor gan roi manylion llawn ynghylch ei ddull gweithredu.

Mae CNC a Llywodraeth Cymru ill dau wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad IR35. Mae adroddiadau archwilio mewnol wedi'u cwblhau gan y ddau sefydliad ac mae cynlluniau gweithredu eisoes wedi'u rhoi ar waith.

Bydd adroddiad pellach ar y gwersi a ddysgwyd hefyd yn cael ei lunio ar gyfer Bwrdd CNC a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ôl i ymchwiliad CThEF ddod i ben. Bydd prif ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad ar gael i'r pwyllgor.

Roedd CNC eisoes wedi cymryd camau i gael gwared ar bob contractwr oddi ar y gyflogres erbyn diwedd 2023/24. Nid oes yr un wedi cael ei gymryd ymlaen ers hynny. Mae cydweithwyr ym maes rheoli pobl (AD) a chaffael wedi datblygu gweithdrefn newydd ar 'ffyrdd o sicrhau adnoddau gyda phobl a sgiliau' i nodi dulliau cadarn a chydymffurfiol o gymryd cymorth allanol ymlaen (e.e. gweithwyr asiantaeth, arbenigwyr asiantaeth ac ymgynghorwyr) ond dim ond lle bo hynny'n gwbl angenrheidiol. Mae'r weithdrefn wedi'i chyhoeddi ar ein mewnrwyd ac wedi'i hyrwyddo drwy sianeli cyfathrebu mewnol. Mae digwyddiad hyfforddi staff wedi'i gynllunio'r mis hwn a bydd yn cael ei recordio i'r rhai na all fynychu.

Mae Grŵp Llywodraethu Adnoddau hefyd wedi'i sefydlu i adolygu cyflogaeth pob arbenigwr asiantaeth ac ymgynghorydd newydd a phresennol. Mae angen achosion busnes ar gyfer pob un, y mae'n rhaid i'r grŵp eu cymeradwyo a chyfarwyddwr gweithredol eu llofnodi. Mae'r canllawiau'n glir na fydd yn dderbyniol <u>mewn unrhyw achos</u> cyflogi contractwr oddi ar y gyflogres trwy gwmni gwasanaethau personol.

Mae ein trefniadau newydd wedi cael eu datblygu'n fewnol. Er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol, maent bellach wedi bod yn destun adolygiad annibynnol gan ein cynghorwyr treth allanol. Mae pob argymhelliad a wnaed gan y cynghorwyr bellach wedi cael sylw yn y trefniadau terfynol a weithredwyd.

Mae Bwrdd a Phwyllgor Cyllid CNC wedi cael gwybod am ddatblygiadau drwy gydol y broses hon.

## Argymhelliad 10

### Dylai CNC adrodd yn ôl i'r pwyllgor (cyn i'r Bil gael ei gyflwyno) ar y casgliadau y mae wedi dod iddynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r ddeddfwriaeth yn ddigonol.

Mae CNC wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddeall gofynion gweithredu'r ddyletswydd egwyddorion amgylcheddol newydd ac amcan amgylcheddol.

Mae'r ddyletswydd newydd i roi "ystyriaeth arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol yn cyflwyno gofyniad penodol a mwy eglur i CNC (a gweinidogion Cymru) integreiddio'r egwyddorion hyn yn systematig ar draws pob swyddogaeth llunio polisi. Bydd cyflwyno'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i CNC sicrhau bod tystiolaeth, cyngor a phrosesau gwneud penderfyniadau mewnol yn adlewyrchu ac yn cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol yn benodol. Er mwyn gweithredu'r ddyletswydd yn effeithiol, rydym yn rhagweld y bydd gofynion ar gyfer:

- Hyfforddiant mewnol cychwynnol a meithrin gallu i gefnogi dehongli a chymhwyso parhaus a chyson yr egwyddorion ar draws pob swyddogaeth.

- Adolygu a diweddaru ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol, er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion wedi'u hymgorffori mewn datblygu polisïau, canllawiau gweithredol a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg.
- Y gallu i ddangos bod yr egwyddorion wedi cael eu hystyried a'u cymhwyso'n ymarferol, er enghraifft drwy fecanweithiau sicrhau mewnol.

Bydd cynnwys yr egwyddor integreiddio o fewn y ddyletswydd yn cynorthwyo gwell cydlyniant ar draws dyletswyddau deddfwriaethol ac egwyddorion rheoleiddio CNC. Mae'n atgyfnerthu dull mwy cydgysylltiedig ac ataliol o ymdrin â chanlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol, er mwyn osgoi gwneud penderfyniadau ar wahân neu dymor byr. Mae'r dull yn adeiladu ar ein dyletswydd bresennol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn cyd-fynd yn gryf â diben a model cyflwyno CNC, yn enwedig ein blaenoriaethau o ran diogelu'r amgylchedd a'n hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae'r Bil yn sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC) i oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru gan awdurdodau cyhoeddus Cymru a chydymffurfedd â hi. Bydd ganddi bwerau i gynnal ymchwiliadau, cymryd camau gorfodi, a monitro cynnydd gweinidogion tuag at gyrraedd targedau.

Rydym wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch priodoldeb y trefniadau llywodraethu arfaethedig yn ystod datblygiad y Bil drafft. Er hynny, nid ydym wedi cael trafodaethau manwl eto ynghylch goblygiadau'r corff newydd i CNC o ran adnoddau ac felly mae'n anodd nodi costau uniongyrchol. Dylid nodi bod llawer o swyddogaethau'r corff arfaethedig yn berthnasol i bob corff cyhoeddus, er bod CNC yn rhan sylweddol o'r dirwedd ddeddfwriaethol amgylcheddol, a bydd angen i ni ystyried y ffordd orau o hwyluso ymchwiliadau a gweithredu unrhyw argymhellion yn effeithlon. Byddwn yn parhau i gysylltu â rheoleiddwyr yn Lloegr a'r Alban i ddysgu o'u profiadau.

Rydym yn nodi'r dyletswyddau cydweithredu cyffredinol i'w gosod ar gyrff cyhoeddus o fewn adran 23, ac yn cytuno â hwy. Fodd bynnag, dylid pwysleisio, fel y prif reoleiddiwr amgylcheddol ar gyfer Cymru, y gellir gofyn i ni ddarparu cryn dipyn o wybodaeth a/neu arbenigedd i gynorthwyo SLlAC a llywio ei hymchwiliadau i awdurdodau cyhoeddus eraill. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, fe wnaethom dynnu sylw at yr angen i sicrhau y bydd gan y corff newydd fynediad priodol at arbenigedd i leihau'r pwysau posibl ar CNC, nad ydynt yn cael eu hariannu, a sicrhau annibyniaeth y corff.

Mae'r Bil yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyflwyno fframwaith sy'n gosod targedau bioamrywiaeth newydd. Bydd dyletswydd ar weinidogion i osod o leiaf un targed ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau canlynol:

- Lleihau perygl difodiant rhywogaethau cynhenid
- Rheoli ecosystemau yn effeithiol
- Lleihau llygredd
- Tystiolaeth yn ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys mynediad ati a'i defnydd a'i chymhwysiad

Er bod y manylion ynghylch targedau gwirioneddol ar gyfer y pedair blaenoriaeth yn dal i gael eu datblygu, mae fframweithiau monitro a thystiolaeth effeithiol a fforddiadwy yn hanfodol i olrhain cynnydd. Mae monitro a thystiolaeth effeithiol yn sail i wneud

penderfyniadau da ac yn galluogi dull rheoli addasol i gyflenwi ecosystemau gwydn ac ymateb yn gadarnhaol i bwysau ehangach fel newid hinsawdd. Mae angen i'r fframweithiau hyn gael eu llywio gan arfarniad o anghenion data, gan adeiladu ar arferion da a setiau data presennol, a nodi'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys creu cyfleoedd ar gyfer cydweithio gwell, rôl gynyddol i wyddoniaeth dinasyddion, a gwneud defnydd gwell o ddatblygiadau technolegol. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru drwy Grŵp Arbenigol Monitro a Thystiolaeth 30 erbyn 30 ynghylch sut i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Rhan allweddol o'r broses hon yw deall a gwerthuso'r camau blaenoriaeth i'w cymryd, datrys unrhyw rwystrau, a blaenoriaethu adnoddau presennol. Gall y broses nodi bylchau a allai rwystro cynnydd ac ni ellir diystyru'r angen am adnoddau ychwanegol ar hyn o bryd.

Mae'r uchod yn nodi'r meysydd trafod gyda Llywodraeth Cymru ynghylch rhannau o'r Bil sydd â goblygiadau i CNC o ran adnoddau. Hyd yn hyn, nid ydym wedi nodi adnoddau newydd penodol y mae eu hangen, ond yn hytrach wedi blaenoriaethu ac ailgyfeirio adnoddau presennol. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r mater hwn yn barhaus gyda Llywodraeth Cymru, gan y byddwn efallai'n nodi'r angen am adnoddau newydd, yn barhaol neu am amser cyfyngedig, wrth i oblygiadau gweithredol y Bil ddod yn fwyfwy clir.

## Argymhelliad 11

### Dylai CNC gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren sydd ar ddod yn caniatáu i CNC reoli ei incwm o bren masnachol yn effeithiol ar draws blynyddoedd ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn tanategu incwm CNC o bren am £33 miliwn oherwydd anwadalrwydd parhaus y farchnad, ond yn enwedig nawr, o ystyried ei sensitifrwydd i amodau economaidd y byd (y pandemig, rhyfeloedd a thariffau i ddechrau). Mae'r farchnad hefyd yn agored i amrywiaeth o ffactorau eraill, fel y stormydd y gaeaf diwethaf, a gyfrannodd at ostyngiad mewn incwm yn nau chwarter olaf y llynedd. Er bod CNC yn gweithio i wneud y mwyaf o'r incwm pren a'i nod yw cyrraedd neu ragori ar y targed o £33 miliwn, nid yw hyn bob amser yn gyflawnadwy oherwydd y pwysau allanol hyn.

Mae CNC wedi cefnogi'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, ac yn parhau i weithio arno gyda Llywodraeth Cymru, trwy aelodaeth o weithgor y strategaeth. Mae swyddogion CNC yn cynrychioli'r corff, a bod yn eiriol dros Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn y fforwm hwn. Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynychu digwyddiadau ymgysylltu â chwsmeriaid a gynhaliwyd gan CNC, fel cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid y diwydiant, a hyrwyddo'r cyfleoedd o fewn strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren i Gymru.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw newid yn y gofynion o ran pren, neu gyflwyniad dulliau gwerthu amgen gan Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, yn cael eu hariannu mewn ffordd gynaliadwy, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf. Ar adeg ysgrifennu'r ymateb hwn, nid yw'r strategaeth sydd ar y gweill wedi'i chyhoeddi eto, felly nid yw'n glir eto sut y gallai'r galw am bren o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru newid, ac ma'r goblygiadau i incwm pren masnachol CNC – yn parhau i fod yn ansicr.

Yn gyfochrog â hyn, mae CNC yn datblygu strategaeth fasnachol newydd a fydd yn amlinellu sut y bydd yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy ei weithgareddau masnachol. Mae'n debygol y bydd y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn rhoi syniad cliriach o ran manteisio i'r eithaf ar bren Cymru fel adnodd darparu, a gall ddylanwadu ar y cynllun hwn a'n penderfyniadau masnachol ynghylch rheoli coedwigoedd a marchnata pren.